Frances Ridley Havergal 1836–1879
Bardd ac emynydd

‘Cymer, Arglwydd, f’einioes i
i’w chysegru oll i ti;
cymer fy munudau i fod
fyth yn llifo er dy glod.’

Ganwyd Frances Ridley Havergal ar 14 Rhagfyr 1836 yn rheithordy Astley, Swydd Caerwrangon, yn chweched plentyn a’r cyw melyn olaf i William Henry Havergal a’i briod Jane, Head. Roedd ei thad yn offeiriad yn Eglwys Loegr ac yn gyfansoddwr. Yn y cartref rhoddid pwyslais ar ddefosiwn ac yn ddyddiol cynhelid dyletswydd deuluaidd pan ddeuai pawb at ei gilydd i ddarllen yr ysgrythur a gweddïo. Roedd Frances yn blentyn deallus ac yn ddisgybl llawn brwdfrydedd yn ysgol Belmont, Campden Hill, Llundain a Powick Court, Caerwrangon. Ond daeth ei gyrfa addysgol i ben yn fuan oherwydd ei bod yn dioddef o fflamwydden (erysipelas), afiechyd ar y croen, ac aeth i ogledd Cymru i geisio iachâd.

Cafodd ergyd fawr iawn pan fu farw ei mam pan nad oedd ond un ar ddeg oed. Roedd golwg ei thad yn dirywio’n gyflym ac felly ym 1852 aeth gyda’i thad a’i ail wraig Caroline i’r Almaen i weld arbenigwr ar y llygaid. Yno fe astudiodd yn y Louisenschule yn Düsseldorf ac yna aeth at deulu offeiriad Almaenig yn Oberkassel. Dychwelodd i Loegr yn Rhagfyr 1853. Er pan oedd yn saith oed bu’n barddoni a rhigymu ac fe gyhoeddwyd ei cherddi yn y *Good Words* a chyfnodolion a llyfrynnau eraill o dan y ffugenwau Sabrina a Zoide.

Ysgrifennai yn ddi-baid ac nid oedd ei phin dur byth yn segur oherwydd ei diwydrwydd. Ymwelodd eto â’r Almaen yn 1865–66 i geisio barn yr Athro Ferdinand Hiller am ei dawn gerddorol. Credai Hiller fod ganddi ddigon o ddoniau i fod yn gerddor proffesiynol ond dewisodd beidio â mynd i’r cyfeiriad hwnnw. Bu farw ei thad yn ddisymwth ym 1870 ac aeth Frances ati i baratoi i gyhoeddi argraffiad newydd o’i lyfr *Psalmody*. Cydweithiodd gyda’r Parch. C. B. Snepp i olygu’r gyfrol *Songs of Grace*

and Glory (1872). Pan fu farw ei mam wen ym 1878 fe symudodd o Leamington Spa yn Swydd Warwick i Fae Caswell, ger y Mwmbwls, Abertawe.

Trwy gydol ei hoes gweithiodd yn ddiflino dros waith Iesu Grist o fewn yr eglwys a hefyd gyda gwaith dyngarol. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r elw a wnaeth o'i chyhoeddiadau i achosion da. Oherwydd ei hymroddiad i waith Cristnogol gwrthododd nifer o gynigion i briodi. Cyhoeddwyd ei cherddi a'i hemynau mewn nifer o gyfrolau yn cynnwys *The Ministry of Song (*1869*), Under the Surface (*1874*), Loyal Responses (*1878*), Life Chords (*1880*)* a *Coming to the King (*1886*).* Hefyd fe gasglodd ei chwaer, Maria Vernon Graham Havergal, ei gwaith mewn dwy gyfrol yn dwyn y teitl *Poetical Works* (1884). Ysgrifennodd hefyd bamffledi defosiynol, rhai ohonynt i blant. Adlewyrchir ei natur fewnblyg yn ei gwaith wrth iddi bwysleisio duwioldeb ac ymgysegriad. Daeth ei cherddi Cristnogol yn boblogaidd yn y cylchoedd efengylaidd ac fe geir cyfieithiad o ddau o'i hemynau yn *Caneuon Ffydd,* sef 'Cymer, Arglwydd, f'einioes i' a 'Gwawr wedi hirnos'.

Bu farw yn Newton, Ystumllwynarth, Morgannwg, ar 3 Mehefin 1879 a chladdwyd ei chorff yn yr eglwys yn Astley.